**Cyfarfod Bwrdd Cynghori Taith – Cofnodion**
**Dydd Mercher 21 Mehefin 2023**
**10.30am – 12.30pm**
**Cyfarfod wedi'i gynnal ar Teams**

| **Rhestr Bresenoldeb** | |
|---|---|
| **Yn Bresennol:** | (**KW**) Kirsty Williams, Cadeirydd y Bwrdd Cynghori<br>(**CM**) Craig Matthews, Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid yr Awdurdodau Lleol<br>**(PG)** Paul Glaze, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol<br>(**RH**) Rob Humphreys, Sefydliad Dysgu a Gwaith<br>(**BC**) Ben Calvert, Partneriaeth Cymru Fyd-eang<br>**(HB)**Harriet Barnes, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| **Dirprwyon:** | (**APE**) Angharad Penny Evans, Llywodraeth Cymru<br>**(PD)** Paul Davies, UCM Cymru<br>**(DH)** David Hagendyk, ColegauCymru<br>**(LM)** Lisa Mytton, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru<br>**(EF)** Elin Forsyth, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru<br>**(KR)** Kieron Rees, Prifysgolion Cymru |
| **Ymddiheuriadau:** | John Nash, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru<br>Calum White, Llywodraeth Cymru<br>Colin McInnes, Addysg Uwch Cymru Brwsel<br>Harriet Barnes, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru<br>Amanda Wilkinson, Prifysgolion Cymru<br>Maria Hinfelaar, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam<br>Siân Holleran, ColegauCymru<br>Delyth Lewis, Senedd Ieuenctid Cymru<br>Zachary Edge, UCM Cymru<br>Gareth Morgans, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru |
| **Swyddogion Gweithredol Rhaglen Taith:** | (**SG**) Susana Galván<br>(**EM**) Dr Elid Morris<br>(**EB**) Ellie Bevan<br>(**WB**) Walter Brooks<br>(**BW**) Bethan Williams |

| | |
|---|---|
| **Cymorth Ysgrifenyddol:** | Michele Convery |

| **Cofnodion** | | |
|---|---|---|
| **Eitem ar yr agenda** | **Eitem** | **Gweithredu (G) – Trafod (T)** |
| **1** | **Croeso a chyflwyniadau (KW)** | |
| 1.1<br><br><br><br><br><br><br>1.2 | Croesawodd **KW** yr holl aelodau i'r cyfarfod. Croesawodd KW hefyd eilyddion Angharad Penny Evans (ar ran Calum White o Lywodraeth Cymru), Paul Davies (ar ran Zachary Edge o UCM Cymru), David Hagendyk (ar ran Sian Holleran, ColegauCymru), Lissa Mytton (ar ran John Nash, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Elin Forsyth (ar ran Gareth Morgans, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru) a Kieron Rees (ar ran Amanda Wilkinson, Prifysgolion Cymru).<br><br>Rhoddwyd **KW** wybod i'r Bwrdd fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn hwyluso'r gwaith cofnodi, gan ofyn iddynt ddefnyddio'r teclyn 'sgwrsio' at faterion gweithredol yn unig. | |
| **2** | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a'r camau gweithredu (KW)** | |
| 2.1 | Cytunodd yr aelodau fod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn adlewyrchu'r drafodaeth yn gywir. | |
| **3** | **Materion yn codi (KW)** | |
| 3.1 | Ni wnaeth yr aelodau unrhyw sylwadau ar y cofnodion a'r camau gweithredu blaenorol. | |
| **4** | **Diweddariad gan Swyddogion Gweithredol Rhaglen Taith (SG)** | |
| 4.1<br><br><br>4.1a<br><br>4.1a(i) | Rhoddodd y Swyddogion Gweithredol ddiweddariad cryno, am fod y papur manwl (papur 2) wedi'i rannu cyn y cyfarfod. Codwyd y cwestiynau canlynol mewn perthynas â'r diweddariad:<br><br>Gofynnodd **BC** sut roedd y data ynghylch cynhwysiant ac allgymorth yn cael eu casglu ac a yw'r data hyn yn dangos unrhyw effaith.<br>Eglurodd **EM** fod y data sy'n cael eu casglu ar hyn o bryd ar gyfer prosiectau Llwybr 1 2022, gan mai dyma'r prosiectau gweithredol. Mae llif cyson o wybodaeth yn dechrau dod i'r amlwg wrth i'r prosiectau ddechrau arni. Yn y dyfodol, bydd y Swyddogion Gweithredol yn dechrau archwilio'r data hyn o safbwynt strategol a chyfannol, a chaiff y canlyniadau eu cyflwyno i Fwrdd Cyfarwyddwyr RhCDRh a'r Bwrdd Cynghori. | |

| | | |
|---|---|---|
| 4.1b<br>4.1b(i)<br>4.1b(ii)<br>4.1b(iii)<br>4.1b(iv)<br>4.2b(v) | Gofynnodd **RH** am gasglu data, ac a yw wedi'u rhannu'n gyfartal a chymesur. Roedd yn ystyriol o drin a thrafod ymgeiswyr aflwyddiannus i wirio am unrhyw batrymau a oedd yn dod i'r amlwg ynghylch pam eu bod yn aflwyddiannus.<br>Eglurodd **KW** fod aelodau'r Pwyllgor Cyllid wedi gofyn yr un cwestiynau, a rhoddodd enghraifft o 5 ysgol a ymgeisiodd y llynedd ac na fu'n llwyddiannus, a fu'n llwyddiannus eleni. Roedd yr ysgolion hyn wedi cael cymorth wrth ailgyflwyno cais, ac mae angen gwneud hyn yn gyson.<br>**EM** - mae is-setiau data yn ymwneud â phroffilio cyfranogwyr, ac mae modd rhannu hyn â'r Bwrdd Cynghori wrth wneud cais ysgrifenedig. Mae gwybodaeth ar gael ar y wefan ar hyn o bryd o ran dadansoddiad yn ôl siroedd. Mae cyllid yn cael ei rannu ledled Cymru mewn ffordd fuddiol.<br>**EB** - mae ceisiadau ysgolion o ardaloedd o amddifadedd wedi bod yn uwch na'r disgwyl – roedd dros 50% o'r ysgolion a oedd wedi ymgeisio eleni yn nau cwintel isaf mynegai amddifadedd lluosog Cymru. Yn y sector Ieuenctid, mae llawer o sefydliadau yn gweithio mewn ardaloedd difreintiedig. Caiff gwaith ei ganolbwyntio ar roi cymorth ychwanegol i wneud yn siŵr bod modd i sefydliadau sy'n gweithio gyda'r rheiny sydd â'r rhwystrau fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael. Wrth i ragor o ddata ddod i law, bydd yn haws nodi'r diffygion.<br>**WB** - mae'r Swyddogion Gweithredol wedi gofyn i aseswyr annibynnol roi adborth manylach i ymgeiswyr sydd wedi bod yn aflwyddiannus a rhoi arweiniad ar y meysydd ble y mae modd gwella'r gyfradd llwyddiant. Hefyd, mae mwy o amrywiaeth o ymgeiswyr yn y sector Addysg Oedolion.<br>**SG** – mae gwaith i'w wneud gyda'r sector AU i sicrhau bod gan eu ceisiadau gysylltiadau clir â thargedu cyfranogiad ehangach. | **G – Swyddogion Gweithredol Rhaglen Taith i rannu'r is-set o ddata ynghylch proffilio cyfranogwyr wrth wneud cais ysgrifenedig.** |
| **5** | **Adfywio Strategaeth Taith(SG/EB)** | |
| 5.1<br><br>5.1a<br><br>5.1b<br>5.1b(i) | Cyflwynodd **EB** ddiweddariad strategaeth arfaethedig Rhaglen Taith (papur 3), gan nodi bod y papur hwn wedi'i gyflwyno i Fwrdd Cyfarwyddwyr RhCDRh a chaiff ei anfon at y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg. Y nod yw cyhoeddi diwedd yr haf/dechrau'r hydref. Codwyd y cwestiynau canlynol mewn perthynas â'r diweddariad:<br><br>Roedd **PG** wedi llongyfarch y tîm ar y papur cryno â manwl.<br><br>Gofynnodd **KW** i'r Bwrdd roi sylwadau ar faterion yn ymwneud â chynwysoldeb/ehangu cyfranogiad/cydraddoldeb ac a yw'n cael ei adlewyrchu'n ddigonol ac yn glir yn rhan o genhadaeth ganolog. | |

| | | |
|---|---|---|
| <br><br>5.1b(ii)<br>5.1b(iii)<br><br>5.1b(iv)<br>5.1b(v)<br><br><br>5.1b(vi)<br><br>5.1b(vii)<br><br>5.1b(viii)<br><br><br>5.1b(ix)<br><br>5.1b(x)<br><br><br>5.2b(xi) | Dywedodd **HB** fod enwi grwpiau difreintiedig yn benodol, h.y. dysgwyr/pobl anabl/y rhai ag anghenion ychwanegol yn llai cynhwysol; mae enwi grwpiau penodol bob amser yn broblem gan fod rhai grwpiau'n cael eu colli.<br>Dywedodd **KW** wrth **HB** mai'r nod oedd bod yn eglur, ond cymerodd y pwynt ei fod yn anodd cael cydbwysedd.<br>Dywedodd **DH** o'i brofiad, oni bai bod y grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu henwi'n benodol, yna nid yw'n cael y sbardun gofynnol.<br>Cwestiynodd **DH** y term 'effaith amlwg' a sut y caiff hyn ei fesur?<br>Dywedodd **EB** wrth **HB** fod angen bod yn glir ynghylch yr ardal/y grwpiau sy'n cael eu targedu. Roedd wedi cydnabod bod llawer o rwystrau i fynediad a chyfranogiad ac mae'r Rhaglen yn ceisio datblygu hyn a chwalu cymaint o rwystrau â phosibl.<br>Dywedodd **EB** ei bod yn cytuno â DH fod angen meddwl am sut caiff hyn ei gasglu, a bod hefyd angen trin a thrafod manylion ansoddol ac astudiaethau achos, a'u cynnwys nhw yn rhan o'r broses adrodd.<br>Amlygodd **BC** fod tystiolaeth o berthynas rhwng rhaglenni cyfnewid rhyngwladol a datblygu gyrfa.<br>Cwestiynodd **RH** y term (o dan Effeithiau Ehangach yn atodiad 1 y papur) hyrwyddo 'yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig' (o dan Effeithiau Ehangach yn atodiad 1 y papur) a gofynnodd am ystyried newid y geiriad o'i gwmpas.<br>Cytunodd **EB** â phwynt **RH**, gan ddweud y byddai'n ehangu'r iaith o gwmpas hyn i wneud yn glir ei fod yn cynnwys cyfoeth y diwylliant ac nid yr iaith Gymraeg yn unig.<br>Dywedodd **EB** wrth **BC** fod llawer o ddata yn dechrau dod i law sy'n cael eu gwerthuso ar hyn o bryd er mwyn asesu effaith y rhaglen. Mae angen i'r data gasglu'r holl effeithiau ym mhob sector gan y byddan nhw'n wahanol.<br>Gofynnodd **KW** i'r rheiny sydd ag arbenigedd yn y sector rannu eu hadborth/safbwyntiau ar y ffordd orau o gasglu 'effaith amlwg'. | **G – Y Bwrdd i drosglwyddo arbenigedd y sector i'r Swyddogion Gweithredol ar y ffyrdd gorau o gasglu 'effaith amlwg'.** |
| 5.2c | Gofynnodd **KW** i'r Bwrdd a oedd yn fodlon cymeradwyo'r strategaeth. | **T - Cymeradwyodd y Bwrdd Adolygiad Strategaeth Taith.** |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **6** | **Adolygiad Llywodraethu Taith: adolygiad o'r Bwrdd Cynghori (SG/EM)** | |
| 6.1<br><br><br><br>6.1a<br><br><br>6.1a(i)<br>6.1a(ii)<br><br>6.1a(iii)<br><br>6.1a(iv)<br>6.1a(v)<br>6.1a(vi)<br><br>6.1a(vii)<br><br><br>6.1a(viii)<br><br><br>6.1a(ix)<br><br><br>6.1a(x)<br><br>6.1a(xi) | Gan ddefnyddio dec sleidiau, rhoddodd **SG** ddiweddariad i'r Bwrdd Cynghori ar gynnydd gweithredu'r adolygiad Llywodraethu, gan ganolbwyntio'n benodol ar y model a'r amserlen arfaethedig ar gyfer adolygu'r Bwrdd Cynghori (papur 4). Codwyd y cwestiynau canlynol mewn perthynas â'r adolygiad:<br><br>Gofynnodd **KW** am unrhyw gwestiynau ynghylch agwedd adolygiad llywodraethu'r diweddariad neu'r newidiadau i Fwrdd Cyfarwyddwyr RhCDRh, gan nodi ei diolch i Brifysgol Caerdydd am ddarparu'r seilwaith a ganiataodd i Raglen Taith gael ei sefydlu.<br>Cwestiynodd **DH** gydbwysedd yr aelodau â phleidlais ar Fwrdd Cyfarwyddwyr RhCDRh sydd newydd ei sefydlu.<br>Cadarnhaodd **KW** y byddai tri aelod o Brifysgol Caerdydd a thri chyfarwyddwr annibynnol.<br>Gofynnodd **BC** pam fod angen cymaint o aelodau o Brifysgol Caerdydd ar Fwrdd y Cyfarwyddwyr ac a fyddai modd cynyddu nifer y cyfarwyddwyr annibynnol.<br>Gofynnodd **KR** pwy oedd â'r bleidlais fwrw ar Fwrdd y Cyfarwyddwyr.<br>Cadarnhaodd **KW** fod gan y cadeirydd y bleidlais fwrw yn unol â'r cyfarfodydd arferol.<br>Croesawodd **RH** y cynnig, sy'n rhoi tryloywder a mwy o botensial i ymgysylltu â sectorau ehangach. Cwestiynodd ddatblygiad parhaus polisïau.<br>Cytunodd **PG** ei bod hi'n bryd gwneud hyn, gan gwestiynu cyfansoddiad aelodaeth arfaethedig y Bwrdd Cynghori - a fydd yn ymwneud ag arbenigedd unigol? Hefyd, o ran grwpiau rhanddeiliaid, ai'r bwriad fyddai defnyddio grwpiau presennol ac a fyddai'r rhain yn cael eu rheoli gan Taith?<br>Dywedodd **SG** wrth **BC** fel sydd wedi'i nodi yn y Llythyr Cytundeb Grant (GAL), dylai fod uchafswm o chwe chyfarwyddwr ar Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Mae'r Swyddogion Gweithredol yn fodlon gyda'r rhaniad tri a thri, ond mae hyn yn agored i'w drafod.<br>Dywedodd **SG** wrth **RH** bydd adolygiad y Bwrdd Cynghori yn dilyn yr amserlen a bennwyd yn y cyflwyniad, ac ochr yn ochr â hyn bydd sgyrsiau gyda'r sectorau. Ni fydd trafodaethau ynghylch polisïau yn rhan o lywodraethu arferol ond byddan nhw'n parhau i ddigwydd ochr yn ochr â hyn.<br>Gofynnodd **RH** am gadarnhad mai digwyddiad untro yw hwn o ganlyniad i'r ffordd mae pethau wedi digwydd.<br>Cadarnhaodd **SG** ei fod, a bydd trafodaethau ynghylch polisïau yn rhan o swyddogaeth grŵp y rhanddeiliaid ac yn cael eu rhannu â'r Bwrdd Cynghori. | |

| | | |
|---|---|---|
| 6.1a(xi)<br>6.1a(xii)<br><br><br><br><br>6.1a(xiii)<br><br><br>6.1a(xiv)<br><br>6.1a(xv)<br><br>6.1a(xvi)<br><br><br>6.1a(xvii)<br>6.1a(xviii)<br>6.1a(xix)<br>6.1a(xx)<br><br>6.1a(xxi)<br><br><br>6.1a(xxii)<br><br><br>6.1b | Dywedodd **SG** wrth **PG** ei fod yn synhwyrol i ddefnyddio'r seilwaith presennol. Dros yr haf, bydd tîm Taith (ynghyd â'r Bwrdd Cynghori) yn mynd i'r afael â'r agweddau ymarferol. O ran y mathau o aelodau, bydd cymysgedd o sgiliau unigol a threfniadol.<br>Holodd **DH** beth fyddai rôl y Bwrdd Cynghori newydd ac ar beth fyddai'n cynghori. Roedd hefyd wedi mynegi pryderon ynghylch colli llais rhai sefydliadau gwerthfawr (os nad ydynt yn gymwys i fod yn rhan o'r Bwrdd Cynghori newydd) a sut y byddai'n anodd cael eraill (nad ydynt yn rhan o'r grŵp hwn ar hyn o bryd) â'r arbenigedd, gan fod risg o leihau llais y sector. Byddai angen sicrwydd ar grwpiau rhanddeiliaid bod eu barn yn cael ei rhannu â'r Bwrdd Cynghori a Bwrdd y Cyfarwyddwyr.<br>Gofynnodd **BC** am eglurder ynghylch sut y bydd llais rhanddeiliaid yn cael ei glywed yn uniongyrchol. Grwpiau rhanddeiliaid: defnyddio rhwydweithiau rhyngwladol i osgoi dyblygu. Hefyd, mae potensial ar gyfer colli cysylltedd ac integreiddio.<br>**CM** – gofynnodd am gadarnhad y bydd grwpiau rhanddeiliaid ffurfiol yn cael eu goruchwylio gan reolwyr rhaglenni a pha mor fawr/bach y rhagwelir y bydd y grwpiau rhanddeiliaid.<br>Dywedodd **SG** wrth **CM** y bydd Timau Rhaglenni yn cydlynu'r grwpiau rhanddeiliaid, a bydd y rhain yn cael eu cofnodi'n ffurfiol.<br>Dywedodd **EB** wrth **PG** fod modd trafod pwy fydd yn cadeirio'r grŵp rhanddeiliaid a sut y bydd popeth yn gweithio. Y nod yw gwneud y grwpiau hyn mor agored a hygyrch â phosibl ac yn gynrychioliadol o'r sector cyfan. Mae angen cysondeb ar draws y grwpiau, tra'n cydnabod y gall y sectorau fod yn wahanol iawn.<br>Gofynnodd **KR** am rôl rheoleiddwyr nad ydynt yn fuddiolwyr.<br>Gofynnodd **KW** ble bydd llais y defnyddiwr yn rhan o hyn a sut y bydd yn cael ei gasglu a'i gofnodi.<br>Gofynnodd **HB** am gael dewis agored yn erbyn cyrff enwebu.<br>Dywedodd **SG** wrth **BC** bydd trafodaethau manylach ar sut olwg fydd ar y grwpiau rhanddeiliaid er mwyn sicrhau nad yw lleisiau pawb yn cael eu colli.<br>Dywedodd **SG** wrth **DH** ei bod yn cydnabod y pryderon ynghylch lleihau lleisiau ond, i'r gwrthwyneb, roedd yn ei weld yn ffordd o'u cael eu clywed yn ehangach. Serch hynny, nodir y pryderon hyn a byddant yn cael eu hystyried yn y dyfodol.<br>Dywedodd **SG** wrth **HB** y bydd trafodaeth am reoleiddwyr yn rhan o drafodaethau yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru.<br><br>Crynhodd **KW**, gan ofyn i'r Bwrdd a oedd cytundeb mewn egwyddor i'r cynnig symud yn ei flaen yn y modd a awgrymwyd. Bydd trafodaethau parhaus ynghylch ymarferoldeb yr wybodaeth, lliniaru risgiau, neu'r atebion i rai o'r heriau amrywiol a chyfreithlon a amlygwyd yn y cyfarfod hwn. | **T – Cytunodd y Bwrdd Cynghori ag egwyddorion y cynnig.** |

| | | |
|---|---|---|
| 6.1b(i) | Dywedodd **KW** mai'r cynnig yw cyfleu'r egwyddor i Fwrdd y Cyfarwyddwyr ac i Lywodraeth Cymru i'w chymeradwyo, ac yna byddai cyfarfod ychwanegol o'r grŵp hwn ym mis Medi i fodloni'r Bwrdd Cynghori bod y gwaith wedi'i wneud. Y targed yw cael y Bwrdd Cynghori newydd hwn ar waith erbyn mis Chwefror 2024. | |
| 7 | **Unrhyw faterion eraill (KW)** | |
| 7.1 | Ni chodwyd unrhyw faterion eraill. | |